## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 11 Mehefin 2002

## Cynigion a gyflwynwyd ar 23 Mai 2002

### NDM1065 John Marek (Wrecsam)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 16 (2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru a Rheol Sefydlog 3.1, yn penderfynu y bydd lwfans ar gael ar gyfer unrhyw swm o fwy na £2,000 sy'n cael ei wario gan yr Aelodau mewn unrhyw flwyddyn ariannol ar fesurau diogelwch y mae'r Aelodau'n bwriadu eu rhoi ar waith er mwyn eu diogelu eu hunain, eu staff, yr offer sydd ganddynt yn eu hetholaethau ac yn eu swyddfeydd, os yw'r heddlu wedi argymell mesurau diogelwch o'r fath. Rhaid i argymhellion o'r fath fod yn rhai ysgrifenedig a rhaid i'r Aelodau gyflwyno'r argymhellion ynghyd ag o leiaf 3 dyfynbris cystadleuol sy'n nodi cost gwneud gwaith o'r fath cyn i unrhyw symiau gael eu gwario.